Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion

Animal and Plant Health Agency
Service/team
First address line
Second address line
Town/city
Postcode

T +44 xxx xxxx xxxx
F +44 xxx xxxx xxxx

www.gov.uk/apha

Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig
Llywodraeth yr Alban
Llywodraeth Cymru

(Insert address)

Cyfeirnod y Ddogfen: (OCE Reference Number)
Cyfeirnod y Digwyddiad: (Incident Reference Number)
Rhif y Daliad: CPHH

Deddf Iechyd Anifeiliaid 1981
Gorchymyn Twbercwlosis mewn Anifeiliaid (Lloegr) 2021
Gorchymyn Twbercwlosis (yr Alban) 2023
Gorchymyn Twbercwlosis (Cymru) 2010 (fel y'i diwygiwyd)

---

# Hysbysiad Yn Atal Symud Anifeiliaid Buchol

Rwyf i, sef Arolygydd Milfeddygol a benodwyd gan yr awdurdod perthnasol, yn atal symudiadau yn unol â'r pwerau uchod o anifeiliad buchol a gedwir ar y safleoedd canlynol:

| **Manylion y Safle:** |
|---|
| (location) |

Ni chaiff unrhyw anifeiliaid buchol eu symud **i'r safle** nac **oddi ar y safle** oni chewch:

- drwydded wedi'i chyhoeddi gan Arolygydd Milfeddygol a benodwyd gan yr awdurdod perthnasol, s'yn eich awdurdodi i'w symud, **neu**
- Hysbysiad a roddwyd gan Arolygydd Milfeddygol yn diddymu'r Hysbysiad hwn.

**Mae methu â chydymffurfio â'r Hysbysiad hwn yn drosedd. Yng Nghymru, gall methu â chydymffurfio â'r Hysbysiad olygu gostyngiad o hyd at 95% mewn iawndal.**

Nid yw'r gwaharddiad ar symud sydd wedi'i gynnwys yn yr Hysbysiad hwn yn berthnasol i anifeiliaid buchol a symudir i fan lladd neu ar gyfer triniaeth filfeddygol mewn argyfwng er mwyn atal achosi poen diangen i'r anifail hwnnw. Mewn achosion o'r fath, rhaid rhoi manylion llawn i arolygydd cyn gynted â phosibl.

Mae'r Hysbysiad hwn yn diddymu:

| Cyf Cyfyngiad | *Hysbysiad/Cyfyngiad | Dyddiad Cyflwyno'r Hysbysiad/Cyfyngiad |
|---|---|---|
| (OCE Reference) | (Document ID) | (Doc Issued Date) |

Dyddiad: Doc Issued Date

Enw: Signature

Arolygydd Milfeddygol a benodwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol / Arolygydd Milfeddygol a benodwyd gan Weinidogion Cymru / Arolygydd Milfeddygol a benodwyd gan Weinidogion yr Alban

Mae APHA yn un o Asiantaethau Gweithredol Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ac mae hefyd yn gweithio ar ran Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth Cymru a'r Asiantaeth Safonau Bwyd i ddiogelu iechyd anifeiliaid a phlanhigion er budd pobl, yr amgylchedd a'r economi.

SAMPLE

**Diogelwch Iechyd Pobl / Iechyd y Cyhoedd**

**Gwerthiannau Llaeth**

Pan osodir cyfyngiadau symud oherwydd TB ar fuches caiff y statws yn rhydd o diwbercwlosis yn swyddogol ei golli ac o'r herwydd bydd nifer o reolau ychwanegol o dan Reoliad a Ddargedwir (CE) 853/2004, sy'n nodi rheolau hylendid penodol ar gyfer bwyd sy'n tarddu o anifeiliaid, yn gymwys. Mae'r rheolau penodol hyn yn cynnwys:

1. **Ni ddylai llaeth gan adweithyddion gael ei yfed gan bobl**. Rhaid atal llaeth yr anifeiliaid hyn rhag cyrraedd y swmpdanc. Nid argymhellir eich bod yn bwydo eich lloeau na mamaliaid eraill ar eich daliad gyda'r llaeth hwn. Os ydych am ei ddefnyddio er mwyn bwydo, dylid ond rhoi llaeth gan adweithyddion i anifeiliaid sydd ar yr un fferm, a hynny ar ôl iddo gael ei drin â gwres yn unol â Reoliad a Ddargedwir (CE) 853/2004**.Gellir casglu'r llaeth yn y system slyri, ond rhaid i unrhyw waith taenu ar y tir a wneir wedyn fod yn unol ag Eithriad Trwydded Rheoli Gwastraff cofrestredig. I gofrestru cysylltwch naill ai â Chyfoeth Naturiol Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd yn Lloegr (neu defnyddiwch Ddull Fferm Gyfan Defra yn Lloegr yn unig), neu Asiantaeth Diogelu'r Amgylchedd yr Alban (SEPA) yn yr Alban. Mae Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid yn berthnasol i laeth amrwd, colostrwm a chynhyrchion sydd wedi dod ohonynt, pan cânt eu gwaredu neu eu defnyddio yn rhywle heblaw am y fferm y daethant ohoni. Mae'r canllawiau ar gael yma: https://www.gov.uk/guidance/using-leftover-milk-and-milk-products-as-farm-animal-feed. (Saesneg yn unig).

2. **Mae'n rhaid i laeth o anifeiliaid sydd heb ddangos adwaith positif i'r prawf TB, ond sy'n dod o fuches sydd wedi adweithio i'r prawf, gael ei drin â gwres cyn iddo gael ei werthu i'w yfed gan bobl**. Mae'n rhaid i weithredwr y busnes bwyd neu'r unigolyn sy'n gyfrifol am y fuches gysylltu â'i brynwr llaeth er mwyn sicrhau y caiff yr holl laeth ei drin â gwres yn unol â Reoliad a Ddargedwir (CE) 853/2004.

3. **Mae'n rhaid i weithredwyr busnesau bwyd sydd â chofrestriad ychwanegol yng Nghymru a Lloegr i werthu llaeth amrwd i'w yfed yn uniongyrchol gan bobl roi'r gorau i unrhyw werthiannau o'r fath*****. Os yw llaeth amrwd am ei ddefnyddio gan y gweithredwr fel cynhwysyn i wneud hufen, caws ac ati, mae'n rhaid i'r gweithredwr sicrhau bod y llaeth hwnnw yn cael ei drin â gwres cyn ei ddefnyddio.

4. **Gall llaeth o adweithyddion amhendant** barhau i gael ei yfed gan bobl, ar yr amod y caiff ei drin â gwres cyn ei werthu, fel y nodir ym mhwynt 2 uchod.

**Diogelu eich Teulu**

Er mwyn diogelu eich iechyd chi ac iechyd eich teulu, argymhellir yn gryf gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd a Safonau Bwyd yr Alban nad ydych yn yfed llaeth heb ei basteureiddio o'ch buches, ac yn sicr tan bod y cyfyngiadau symud wedi eu codi gan APHA.

**Sumudiadau Anifeiliaid**

Rhaid i unrhyw drefniadau symud anifeiliaid gydymffurfio â phob deddfwriaeth berthnasol ar reoli clefyd, symud da byw ac adnabod da byw, a rhaid sicrhau bod trwydded a gyflwynwyd gan APHA ar gael ar yr un pryd hefyd.

Yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) yw'r Awdurdod Cymwys i orfodi Reoliad a Ddargedwir (CE) 853/2004 mewn lleoliadau cynhyrchu cynradd 'cofrestredig' yng Nghymru a Lloegr, a'r Awdurdodau Lleol sy'n cyflawni'r dyletswyddau swyddogol hynny yn yr Alban. Mae Awdurdodau Lleol hefyd yn gweithredu fel yr Awdurdod Cymwys mewn sefydliadau prosesu llaeth, canolfannau casglu a chanolfannau ail-lapio ac ail-becynnu sydd wedi'u 'cymeradwyo' ym Mhrydain Fawr.

***Gall TB2 gyfeirio at hysbysiad TB2 ffurfiol neu gyfyngiad buches gyfan statudol awtomatig a gymhwysir oherwydd canlyniad prawf croen nad yw'n negyddol**

** Reoliad a Ddargedwir (CE) 853/2004, Atodiad III, Adran IX, Pennod I, Rhan I, paragraff 3(a).

*** Atodlen 6 Reoliadau Diogelwch a Hylendid Bwyd (Lloegr) 2013 neu Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006.



SAMPLE